

Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin

Adolygiad Tir Cyflogaeth 2019



Cynnwys

	Tudalen
1. Cefndir	3
2. Cyflwyniad.....	4
3. Methodoleg yr Astudiaeth	4
4. Canlyniadau	6
5. Materion Parhaus ac Argymhellion	11
6 Yr Astudiaeth Anghenion Cyflogaeth Sectorol	12
7 Y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLI)	13
8 Astudiaeth cyflogaeth fwy na lleol - Yr Astudiaeth Economaidd Dwy Sir ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro	13
9. Casgliadau	15

1. Cefndir

Mae'r system gynllunio yn ganolog i sicrhau twf economaidd parhaus ac i ddarparu swyddi a buddsoddi mewn modd sy'n amgylcheddol gynaliadwy. Mae twf economaidd yn cynhyrchu cyfoeth ac yn codi safonau byw a chaiff ei yrru gan gynnydd mewn cyflogaeth a chynhyrchiant sydd yn ei dro yn cael ei bennu gan lefelau uwch o fuddsoddiad, arloesedd, cystadleuaeth, sgiliau a menter. Yn hyn o beth mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynrychioli elfen ganolog wrth sefydlu a phennu'r cyfleoedd ar gyfer twf a'r fframwaith i arwain a hwyluso'r buddsoddiad.

O safbwynt Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) mabwysiedig Sir Gaerfyrddin, a'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig sy'n datblygu, mae'r rôl sydd gan gyflogaeth a'r economi yn y modd y maent yn cefnogi'r Cynllun a'i Strategaeth yn ystyriaeth ganolog. Yn hyn o beth, mae angen sicrhau bod digon o dir addas ac ymarferol at ddibenion cyflogaeth yn cael ei ddynodi yn unol â'r egwyddorion cynaliadwyedd a Strategaeth Ofodol y Cynllun.

O ran darparu'r dystiolaeth economaidd ddiweddaraf (gan gynnwys llunio adolygiadau tir cyflogaeth i gefnogi'r CDLI, mae Paragraff 5.4.7 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) yn nodi:

Dylai cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu fod yn seiliedig ar y dystiolaeth leol ac is-ranbarthol ddiweddaraf. Mae'n bwysig bod dystiolaeth o'r fath yn dangos addasrwydd y cyflenwad tir cyflogaeth presennol yn ogystal â'r ddarpariaeth yn y dyfodol o ran gofynion lleoliadol a datblygu busnes.

Sir Gaerfyrddin yw'r sir fwyaf ond dwy yng Nghymru, o safbwynt daearyddol, a hi sydd â'r nifer uchaf o aneddiadau. Gyda'i chefnwlad wledig amrywiol sy'n cyferbynnu â'r ardaloedd ôl-ddiwydiannol yn y de-ddwyrain, gorchwyl y CDLI wrth ddarparu ar gyfer cyflogaeth yw diwallu'r amrywiaeth gymhleth hon.

Wrth sicrhau bod y CDLI mabwysiedig presennol yn parhau i fod yn gyfredol, cafodd ei gynnwys ei adolygu a chyhoeddwyd y canlyniadau yn yr Adroddiad Adolygu. Nododd yr Adroddiad, er bod sawl agwedd ar y CDLI mabwysiedig yn gweithredu'n effeithiol, bod yna hefyd faterion yn ymwneud â rhannau o'r Cynllun a'i strategaeth. Dangosodd yr Adroddiad Adolygu nad oedd rhannau o'r strategaeth hon yn cael eu cyflwyno yn ôl y disgwyl a bod angen ystyried lefel a dosbarthiad gofodol twf ymhellach. Daeth i'r casgliad y dylid dechrau paratoi CDLI diwygiedig yn lle'r Cynllun mabwysiedig presennol.

Ar hyn o bryd mae'r Wlad yn adfer yn dilyn y dirywiad economaidd. Bydd ymateb yn gadarnhaol i hyn yn awr o gymorth i adferiad yn y dyfodol. Un ffordd o baratoi ar gyfer yr adferiad (neu gynorthwyo yn hyn o beth) yw darparu cyflenwad digonol o dir cyflogaeth mewn ystod o aneddiadau ar draws y Sir. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd a hyder, er enghraifft trwy ddenu buddsoddiad i'r ardaloedd trefol mwy o faint, a thrwy ddarparu cyfleoedd busnes mwy

lleol yn yr ardaloedd mwy gwledig, yn ogystal â helpu i gynnal bywiogrwydd a hyfywedd yr ystod o gymunedau amrywiol sydd yn y Sir.

2. Cyflwyniad

Bydd tystiolaeth o'r pedwerydd Adolygiad Tir Cyflogaeth hwn yn cael ei defnyddio i ddarparu tystiolaeth i ategu Adroddiadau Monitro Blyneddol y CDLI, a bydd yn cyfrannu at baratoi'r CDLI diwygiedig. Oherwydd natur yr amserlen a bennwyd ar gyfer paratoi'r CDLI Diwygiedig (fel y nodir yn y Cytundeb Cyflawni) lluniwyd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth hwn ar y cyd â'r gwaith adolygu helaeth a wnaed fel rhan o'r cynllun diwygiedig. O ganlyniad, mae'r ffigurau a nodir yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth hwn yn adlewyrchu'r rhai a nodir yn y Cynllun Adneuo Diwygiedig.

Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth hwn yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd gan ein partneriaid corfforaethol ym meysydd Datblygu Economaidd ac Eiddo Corfforaethol, lle bo'n briodol, yn unol â'r Canllawiau Ymarfer - Adeiladu Sylfaen Dystiolaeth Datblygu Economaidd i Ategu Cynllun Datblygu Lleol (Llywodraeth Cymru, 2015).

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod digon o dir cyflogaeth ar gael i ddiwallu'r angen a nodwyd. Yn benodol, mae'n adlewyrchiad o ofynion yr argraffiad cyfredol o Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 23 *Datblygu Economaidd*. Dywed paragraff 5.4.3 o Bolisi Cynllunio Cymru (Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10):

Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi o ran darparu digon o dir i ddiwallu anghenion y farchnad cyflogaeth ar lefel strategol a lleol. Dylai cynlluniau datblygu nodi gofynion tir cyflogaeth, dyrannu cymysgedd priodol o safleoedd i ddiwallu'r angen a darparu fframwaith ar gyfer diogelu safleoedd cyflogaeth presennol sydd o bwysigrwydd lleol a strategol.

3. Methodoleg yr Astudiaeth

Ar gyfer pob blwyddyn arolwg, y sefyllfa a nodir yw 1 Ebrill yn y flwyddyn honno. Y llinell sylfaen ar gyfer yr arolwg hwn yw 1 Ebrill 2018 hyd at 31 Mawrth 2019.

Mae angen gwahaniaethu rhwng safleoedd cyflogaeth a glustnodwyd fel dyraniadau CDLI (safleoedd arfaethedig) a'r rheiny sydd wedi'u hanodi fel safleoedd cyflogaeth presennol o fewn y CDLI. Mae'r wybodaeth ar gyfer y dyraniadau wedi'i nodi yn y 4^{ydd} Adroddiad Monitro Blyneddol, a chaiff ei nodi isod er gwybodaeth, ynghyd â gwybodaeth sy'n ymwneud â'r dyraniadau arfaethedig yn y CDLI Adneuo Diwygiedig. Ni chynhwyswyd gwybodaeth am y safleoedd presennol yn yr Adroddiad Monitro Blyneddol gan nad yw'r rhain yn rhan o'r

portffolio cyflogaeth arfaethedig dros gyfnod y Cynllun. Serch hynny mae'r safleoedd presennol hyn yn ffurfio rhan hanfodol o'r ddarpariaeth gyflogaeth gyffredinol yn y Sir, ac felly cânt sylw manwl yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth hwn.

At ddibenion yr Adolygiad hwn, cymerir bod mathau o ddefnydd tir cyflogaeth yn cynnwys y rheiny sydd yn Nosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8, fel y'u nodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Cymru) 1987 (fel y'i diwygiwyd). Fodd bynnag, cydnabyddir bod dosbarthiadau defnydd eraill yn cwmpasu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ac yn aml maent yn perthyn yn agos iawn i fathau o ddefnydd Dosbarth B, megis A2 (swyddfeydd) a defnydd sui generis. Bydd y rhain yn cael eu nodi yn yr adrannau canlynol.

Mae'r Adolygiad hwn yn cwmpasu:

- Holl ddyraniadau cyflogaeth y CDLI, (a dyraniadau defnydd cymysg lle dynodwyd defnydd cyflogaeth ar ran o'r dyraniad)
- Pob safle cyflogaeth presennol a anodir ar Fapiau Cynigion y CDLI
- Hap-safleoedd cyflogaeth a ganiatawyd ers mabwysiadu'r CDLI, lle nad ydynt ar safleoedd cyflogaeth anodedig presennol

Cafodd cyfanswm o 108 o safleoedd (gan gynnwys dyraniadau'r CDLI a safleoedd presennol) eu harolygu ar gyfer Adolygiad 2019. Mae'r wybodaeth a gasglwyd ar gyfer pob un o'r safleoedd presennol fel a ganlyn:

- Cyfanswm arwynebedd y safle (Ha)
- Cyfanswm arwynebedd yr adeiladau/clostiroedd (Dosbarth Defnydd B) (Ha)
- Cyfran y gweithrediadau Dosbarth Defnydd B (%)
- Adeiladau a chlostiroedd a ddefnyddir at ddibenion eraill (Ha)
- Adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio (gwag) (Ha)
- Tir o fewn cyfanswm arwynebedd y safle a ddefnyddir ar gyfer seilwaith a thirweddau neu sy'n debygol o fod yn anodd i'w ddatblygu (Ha) e.e. ardaloedd ar gyfer ffyrdd a pharcio, ardaloedd wedi'u tirweddau a thir sy'n annhebygol o fod yn agored i'w ddatblygu
- Caiff cyfeirnodau'r ceisiadau am ganiatâd cynllunio, gan gynnwys rhai sydd at ddibenion cyflogaeth a rhai nad ydynt at ddibenion cyflogaeth, eu cofnodi ym mhob safle ar gyfer dyraniadau a safleoedd presennol fel ei gilydd.

Mewn perthynas â dyraniadau CDLI, nodir y maint cyfan, ynghyd â maint yr ardal a hawlir trwy'r datblygiad a/neu ganiatâd cynllunio.

Caiff y canlyniadau ar gyfer safleoedd presennol a safleoedd arfaethedig eu nodi ar wahân ac yna (lle mae'r wybodaeth ar gael) cânt eu cyfuno a'u cynnwys mewn cyfanswm (fel yn Nhabl 1 isod).

Mae tabl sy'n cofnodi'r canlyniadau llawn o gyfnod arolwg 2018/19 wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Fel yr amlygwyd uchod, mae'n bwysig pwysleisio bod yr Adolygiad Tir Cyflogaeth hwn wedi defnyddio'r gwaith a wnaed fel paratoad ar gyfer y CDLI Adneuo Diwygiedig, lle cynhaliwyd adolygiad llawn a gwnaethpwyd mwy o waith dadansoddi mewn perthynas â'r safleoedd unigol. Mae hyn wedi arwain at rai newidiadau sylweddol i'r ffigurau o'r blynyddoedd blaenorol mewn rhai achosion. Dyma rai o'r rhesymau pam y mae hyn wedi digwydd:

- Cynnydd o ran faint o dir a ddyrennir ar gyfer cyflogaeth ar safleoedd penodol, gan adlewyrchu caniatâd newydd;
- Lleihau neu ddileu dyraniadau penodol yn y CDLI presennol oherwydd caniatâd ar gyfer defnydd gwahanol;
- Newid o'r cynllun arfaethedig i'r un presennol i adlewyrchu'r defnydd presennol;
- Cynyddu maint rhai safleoedd a nodwyd fel tir cyflogaeth presennol i adlewyrchu'r defnydd presennol;
- Lleihau maint rhai safleoedd a nodwyd fel tir cyflogaeth presennol i adlewyrchu nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach, neu eu bod yn adfeiliedig;
- Dyraniadau newydd o safleoedd y gellir eu cyflawni sy'n adlewyrchu caniatâd neu safleoedd ymgeisio newydd;
- Cywiro meintiau oherwydd bod y wybodaeth o'r System Gwybodaeth Ddaearyddol wedi'i diweddaru

4. Canlyniadau

Safleoedd cyflogaeth presennol (mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf):

Cyfanswm arwynebedd y tir a glustnodwyd at ddibenion cyflogaeth yn 2019 oedd 446 Ha.

O fewn cyfanswm arwynebedd y safle, roedd yr adeiladau / clostiroedd oedd yn cael eu defnyddio (at ddibenion cyflogaeth - B1, B2, B8 ac at ddefnydd arall) yn 2019 yn cwmpasu 110 Ha.

O'r ffigur hwn, roedd yr adeiladau / clostiroedd oedd yn cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth (B1, B2, B8) yn dod i gyfanswm o 89 Ha (81%).

Roedd y rheiny oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer Dosbarthiadau Defnydd heblaw rhai B yn cwmpasu 17 Ha. Fodd bynnag, caiff llawer o hyn ei hawlio gan fathau o ddefnydd sy'n perthyn yn agos i'r rheiny yn y dosbarthiadau defnydd cyflogaeth (dosbarthiadau sui generis / eraill - Dosbarthiadau Defnydd A, C a D):

- Sui generis – 12 Ha
- Eraill – 5 Ha

Roedd yr ardaloedd o fewn safleoedd sydd i'w defnyddio ar gyfer seilwaith (gan gynnwys meysydd parcio / tirweddu / neu ardaloedd a oedd yn rhy anodd i'w datblygu) yn dod i gyfanswm o 333 Ha. Roedd y 'tir gwag' h.y. adeiladau/clostiroedd gwag neu nad oeddent yn cael eu defnyddio yn 2019 yn dod i gyfanswm o 3 Ha.

Fel canrannau ar draws y Sir gyfan, roedd yr ardaloedd oedd yn cael eu defnyddio at ddibenion gwahanol ddosbarthiadau defnydd tir fel a ganlyn:

- Adeiladau/clostiroedd at ddefnydd cyflogaeth (B1, B2, B8) - 20%
- Adeiladau/clostiroedd at ddefnydd heblaw B - 4%
- Ardal a ddefnyddir ar gyfer seilwaith/tirweddu neu sy'n rhy anodd i'w datblygu – 75%¹
- Adeiladau/clostiroedd gwag – 1%

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r newidiadau sydd wedi digwydd i'r tir cyflogaeth (arfaethedig a phresennol) yn ystod y cyfnod 2018-19. Rhannwyd hyn rhwng y newidiadau sydd wedi digwydd mewn perthynas â'r CDLI presennol, a'r rhai sydd wedi digwydd yn rhan o broses Adolygu'r CDLI. Mae'r rhai sy'n ymwneud â'r CDLI presennol yn cael eu cynnwys er gwybodaeth yn unig. O ran cymharu â data'r blynyddoedd blaenorol (sef 2017/2018) defnyddiwyd y ffigurau newydd o'r broses adolygu.

Safleoedd Cyflogaeth Arfaethedig - y CDLI cyfredol:

Mae darparu tir cyflogaeth yn elfen bwysig o'r CDLI. Datgelodd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y pedwar Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf fod y tir cyflogaeth a hawliwyd ar safleoedd

¹ Noder: Mae hyn yn cynnwys ardaloedd sy'n gysylltiedig â gweithgarwch defnydd tir a gweithrediadau cyflogaeth ac sy'n hanfodol yn hyn o beth.

dyranedig y CDLI wedi parhau i gynyddu ers mabwysiadu'r Cynllun ym mis Rhagfyr 2014. Targed Polisi Monitro'r CDLI ar gyfer cyflogaeth yw bod y 111.13 Ha o dir cyflogaeth a ddyrennir ym Mholisi SP7 yn cael ei ddatblygu dros gyfnod y Cynllun. Mae'r dangosyddion, y targedau a'r sbardunau a nodir yn y CDLI fel a ganlyn:

Dangosydd	Targed Monitro Blynnyddol / Dros Dro	Sbardun asesu
Caniatâd a roddir ar gyfer datblygu ar dir cyflogaeth a restrir ym Mholisi SP7.* Caniatâd ar gyfer, neu argaeledd, seilwaith ar y safle neu seilwaith cysylltiedig sy'n hwyluso'r gwaith o ddarparu safleoedd cyflogaeth (ha) fel y'u rhestrir ym Mholisi SP7.*	25% (h.y. 27.78Ha) o dir cyflogaeth a ddyrannwyd gan Bolisi SP7 naill ai'n cael caniatâd cynllunio neu ar gael i'w ddatblygu o fewn 2 flynedd gyntaf y Cynllun ar ôl ei fabwysiadu.	Mae llai na 25% o dir cyflogaeth a ddyrannwyd gan Bolisi SP7, gydag amrywiant ychwanegol o 20% o dan y ffigur targed (h.y. 22.22ha) i ganiatáu hyblygrwydd, wedi'i ganiatáu neu ar gael o fewn 2 flynedd o'i fabwysiadu.

Mae targed y polisi monitro yn ymwneud â faint o dir cyflogaeth a ganiatawyd neu sydd wedi dod i law o fewn dwy flynedd o fabwysiadu'r Cynllun. Canfuwyd bod bron i 90% o'r targed monitro blynnyddol / dros dro ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf eisoes wedi'i fodloni erbyn hyn.

Ar gyfer y pedwerydd Adroddiad Monitro Blynnyddol, a gwmpasai'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, cafodd rhagor o dir ar ddyraniadau cyflogaeth ganiatâd cynllunio ar gyfer gweithgarwch cyflogaeth – a oedd yn dod i gyfanswm o 0.70Ha. O gyfuno hyn â chyfanswm y tir sydd eisoes â chaniatâd cynllunio neu sydd ar gael i'w ddatblygu, mae'r ffigur yn codi i 30.76Ha.

Cafodd y targed monitro a nodir yn y CDLI (25% o dir cyflogaeth a ddyrannwyd gan Bolisi SP7 naill ai'n llwyddo i gael caniatâd cynllunio neu ar gael i'w ddatblygu o fewn dwy flynedd gyntaf y Cynllun ar ôl ei fabwysiadu) ei fodloni yn ystod cyfnod Adroddiad Monitro Blynnyddol 2 yn 2017 (gan ystyried yr amrywiant ychwanegol o 20% o dan y targed i ganiatáu hyblygrwydd). Mae'r tir pellach a hawliwyd yn ystod cyfnod y pedwerydd Adroddiad Monitro Blynnyddol yn dystiolaeth fod y safleoedd a ddyrannwyd at ddefnydd cyflogaeth yn y CDLI yn parhau i fod yn ymarferol.

I gloi, gwnaed cynnydd clir tuag at ddarparu'r tir a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth yn y CDLI mabwysiedig cyfredol. Bydd gwaith monitro ac adrodd pellach mewn Adroddiadau

Monitro Blynyddol dilynol yn parhau ar y cyd â'r broses Adolygu. Bydd y cyfraddau deiliadaeth ar gyfer tir cyflogaeth sydd wedi'i ddatblygu hefyd yn parhau i gael eu monitro fel rhan o broses yr Adolygiad Tir Cyflogaeth a fydd yn rhedeg ochr yn ochr â'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

Safleoedd Cyflogaeth Arfaethedig – y CDLI Adneuo Diwygiedig:

Fel yr amlygwyd uchod, mae'r ffigurau yn Atodiad 1 yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaethpwyd wrth baratoi'r Cynllun Adneuo Diwygiedig. O ganlyniad, mae cyfanswm y ffigur dyraniad safle wedi cael ei leihau o 111.13Ha (yn y CDLI presennol) i'r 77.93ha a ddyrannwyd yn y Cynllun Adneuo Diwygiedig. O gyfanswm y ffigur a ddyrannwyd, nodwyd yn y Cynllun Adneuo Diwygiedig fod 15.98ha wedi cael caniatâd cynllunio (naill ai yn y cyfnod adrodd 2019, neu drwy ganiatâd sydd eisoes mewn bodolaeth).

Newidiadau mewn safleoedd cyflogaeth presennol – y CDLI cyfredol

Cafodd achosion o ganiatâd cynllunio ar safleoedd cyflogaeth presennol (fel y'u hanodir yn y CDLI cyfredol) eu monitro fel rhan o'r Adolygiad hwn. Ers mabwysiadu'r Cynllun ym mis Rhagfyr 2014, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfanswm o 8.43 hectar o dir mewn lleoliadau o'r fath. Mae'r caniatâd a roddwyd yn ymwneud â'r canlynol, a newid defnydd oedd y math mwyaf cyffredin:

- Newid Defnydd (o fewn yr un dosbarth defnydd neu newid o un defnydd i un arall)
- Estyniadau i weithrediadau presennol
- Dymchwel adeiladau presennol a chodi rhai newydd yn eu lle
- Ailddatblygu tir llwyd lle'r oedd y defnydd presennol/gwreiddiol wedi dod i ben

Newidiadau mewn safleoedd cyflogaeth presennol – y CDLI Adneuo Diwygiedig

Fel yr amlygwyd uchod, mae'r ffigurau yn atodiad 1 yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaethpwyd wrth baratoi ar gyfer y Cynllun Adneuo Diwygiedig, lle cynhaliwyd ailasesiad helaeth o sefyllfa'r tir cyflogaeth. Dros y cyfnod ers mabwysiadu'r CDLI presennol mae dyraniadau cyflogaeth arfaethedig penodol wedi cael eu datblygu, ac mae'r rhain bellach wedi cael eu nodi fel tir cyflogaeth presennol. Manylir ar y caniatâd cynllunio yn atodiad 1. Ymhlith y rhesymau eraill dros y newidiadau i'r sefyllfa bresennol o ran tir cyflogaeth yn y Cynllun Adneuo Diwygiedig mae gostyngiad oherwydd bod ardaloedd yn cael eu digelu fel safleoedd cyflogaeth presennol, er enghraifft oherwydd adfeiliedigrwydd neu newid i ddefnydd nad yw'n ymwneud â chyflogaeth. I'r gwrthwyneb, mae cynnydd wedi bod o ran cyflogaeth mewn ardaloedd eraill

oherwydd bod tir wedi cael ei helaethu, er enghraifft ar gyfer defnydd ategol megis storio sydd yn gysylltiedig â busnes sy'n bodoli eisoes.

Cymhariaeth rhwng y ffigurau diweddaraf a'r rheiny o Adolygiad Tir Cyflogaeth 2018

Drwy gymharu'r ffigurau a nodwyd yn yr Astudiaeth hon â'r rheiny o'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn 2018, gallwn weld y newidiadau sydd wedi digwydd dros y cyfnod o ddwy flynedd. Tra bod hyn yn rhy gynnar i sefydlu p'un a oes yna unrhyw dueddiadau'n datblygu, bydd er hynny'n rhoi cipolwg i ni ar y sefyllfa bresennol, gan gynnwys syniad o hyd a lled trosiant busnes a phwysigrwydd parhaus yr ardal gyfan, eithaf mawr, o safleoedd cyflogaeth presennol yn y Sir.

Fodd bynnag, rhaid pwysleisio gair o rybudd yn y fan hon. Mae'r adolygiad tir cyflogaeth yn broses sy'n datblygu ac mae data newydd ar gael bob blwyddyn, na fyddai o bosibl wedi bod ar gael neu'n hysbys yn y blynyddoedd blaenorol. Rhaid ystyried hyn pan wneir cymariaethau uniongyrchol rhwng adolygiadau olynol, ac mae'n arbennig o berthnasol wrth weld a chymharu'r data a geir yn adolygiadau 2018 a 2019, gan fod y ffigurau ar gyfer hwn (Adroddiad Monitro Blynyddol 2019) yn cynnwys y newidiadau a wnaethpwyd yn rhan o'r Adolygiad o'r CDLI.

Gwelir y graffiau sy'n nodi'r newidiadau rhwng 2018 a 2019 yn Atodiad 2.

Caniatâd cynllunio at ddibenion cyflogaeth ar safleoedd eraill

Yn ogystal â datblygiadau newydd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ar safleoedd cyflogaeth presennol ac arfaethedig y CDLI, dangoswyd diddordeb mewn ardaloedd eraill o dir. Mae rhai o'r achosion hyn lle rhoddwyd caniatâd wedi'u lleoli o fewn terfynau datblygu aneddiadau, tra bod eraill gerllaw safleoedd a ddefnyddiwyd o'r blaen (tir llwyd) ac yn aml yn gysylltiedig â hwy. Mae rhai o'r achosion diweddar hyn lle rhoddwyd caniatâd yn cynnwys prosiectau creu cyflogaeth newydd sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff cynaliadwy. Yn gyffredinol mae'r achosion hyn lle rhoddwyd caniatâd yn eithaf bach o ran maint, ond gyda'i gilydd maent yn gyfwerth â sawl hectar. Ers mabwysiadu'r CDLI presennol, gyda'i gilydd mae'r safleoedd eraill hyn yn dod i 10.82 hectar o dir (0.4Ha yn ystod cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol 2019).

Canlyniadau yn seiliedig ar ardal

Lleoliadau yn y tair ardal dwf sef Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman / Cross Hands sy'n gwneud y cyfraniadau mwyaf i gyfanswm arwynebedd y safleoedd. Mae hyn oherwydd mai gan yr

ardaloedd yma y mae'r crynodiadau uchaf o safleoedd cyflogaeth yn y Sir, ac oherwydd eu lleoliadau cynaliadwy dyma hefyd yr ardaloedd lle dyrannwyd y nifer uchaf o ddyraniadau cyflogaeth yn y CDLI.

Mae Tabl 1 isod yn cyflwyno'r wybodaeth hon ar gyfer 2019:

Tabl 1: Cyfanswm arwynebedd y tir cyflogaeth (Presennol ac Arfaethedig), yn ôl haen y CDLI, ynghyd â'r tir a hawliwyd dros gyfnod y Cynllun (hyd at 31 Mawrth 2019) (Mae'r cyfanswm wedi'i dalgrynnu i'r Hectar agosaf) ²

Lleoliad	Cyfanswm Arwynebedd 2019	2019 (%)	Tir a hawliwyd (Ha dros gyfnod y Cynllun)	% y tir a hawliwyd
Ardaloedd Twf (Haen 1):				
Caerfyrddin	45.33	9	-	
Llanelli	226.97	43	-	
Rhydaman / Cross Hands	148.85	28	-	
			21.00	55
Canolfannau Gwasanaeth (Haen 2)	55.64	11	8.79	23
Canolfannau Gwasanaethau Lleol (Haen 3)	33.69	7	6.19	16
Cymunedau Cynaliadwy (Haen 4)	12.99	2	2.17	6
Cyfanswm y Sir	523	100	38	100

Ffynhonnell: Atodiad 1. Mae'r ffigurau ar gyfer hap-safleoedd wedi'u cynnwys yn y cyfraddau hawlio cyffredinol ym mhob haen.

5. Materion Parhaus ac Argymhellion

Y Gallu i Gyflawni

Adeg yr Archwiliad o'r CDLI, mynegwyd pryder gan yr Arolygydd nad oedd nifer o safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Unedol wedi'u datblygu. Arweiniodd hyn at ailasesu'r dyraniadau a'r lleihad dilynol yn yr arwynebedd cyffredinol a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth. Fodd bynnag, er gwaethaf y lleihad hwn, cynhyrchwyd tystiolaeth ar gyfer yr Archwiliad a ddangosai lefel y diddordeb mewn cyflogaeth yn y Sir a sut yr oedd hyn yn dod i'r amlwg trwy ddyrannu safleoedd. Dangoswyd bod rhai safleoedd yn cael eu marchnata'n weithredol, tra bod eraill yn elwa o Ganllawiau Cynllunio Atodol neu brif

² Mae'r haenau o aneddiadau yn y Tabl hwn yn parhau gan eu bod yn y CDLI presennol er mwyn cymharu ag Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol. Fodd bynnag, mae'r tir a hawliwyd yn adlewyrchu'r data diwygiedig fel y nodir yn y Cynllun Adnewo Diwygiedig.

gynlluniau. Ymhellach, dangoswyd bod yna ddiddordeb mewn sawl safle gan y ffaith fod yna ganiatâd cynllunio presennol yn bodoli ar bob rhan o'r dyraniadau neu ar rannau ohonynt. Roedd yr holl ffactorau hyn yn cynnig lefel o sicrwydd mewn perthynas ag ymarferoldeb y dyraniadau penodol yma yn y dyfodol.

Bydd y gallu i gyflawni yn parhau i fod yn ysgogydd allweddol wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig, a gorchwyl yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a'r Adolygiadau Tir Cyflogaeth, yn ogystal â darnau o waith megis yr Astudiaeth Anghenion Cyflogaeth Sectorol, ac yn fwy diweddar yr Astudiaeth Economaidd Dwy Sir (ar y cyd â Chyngor Sir Penfro) fydd darparu'r dystiolaeth mewn perthynas â lefelau'r gweithgarwch a'r dyraniadau cyflogaeth a thir cyflogaeth a hawllir yn gyffredinol.

Mae'r CDLI mabwysiedig yn dyrannu 111.13 ha o dir at ddibenion cyflogaeth. Mae'r adrannau uchod yn dangos y cynnydd a wnaed hyd yma wrth ddarparu safleoedd. Fel y dangosir, mae rhai safleoedd eisoes yn elwa o ganiatâd cynllunio ac felly maent yn ymrwymadau. Mae'r diddordeb a ddangoswyd mewn safleoedd o'r fath yn galonogol ac mae'r ffaith eu bod wedi'u dyrannu yn y cynllun yn darparu sicrwydd ynghylch eu gallu i gael eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun. Ynghyd â'r dyraniadau, mae diddordeb a gweithgarwch parhaus yn parhau i ddigwydd ar y swm helaeth o safleoedd cyflogaeth sydd gan y Sir ar hyn o bryd, p'un a yw hyn yn gysylltiedig ag ehangu, dymchwel ac ailadeiladu, neu drosiant hen fusnesau a sefydlu mentrau newydd yn eu lle. Mae Atodiad 1 yn tynnu sylw at y ceisiadau cynllunio newydd a roddwyd (neu a oedd eisoes mewn bodolaeth) ers mabwysiadu'r CDLI ar ddiwedd 2014.

6. Yr Astudiaeth Anghenion Cyflogaeth Sectorol

Comisiynwyd yr ymgynghorwyr WSP i gynnal Astudiaeth Cyflogaeth Sectorol ar gyfer y Sir yn 2017. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiad i fynd ati'n barhaus i adolygu'r dystiolaeth er mwyn ategu'r CDLI, ynghyd â dogfennau corfforaethol a strategaethau eraill. Darparodd y canfyddiadau a gyflwynwyd yn yr Astudiaeth dystiolaeth ychwanegol fel rhan o'r gwaith o fonitro ac adolygu'r CDLI.

Er bod swm sylweddol o dir wedi'i ddyrannu at ddibenion cyflogaeth newydd yn y CDLI, roedd yr Astudiaeth wedi tynnu sylw at y ffaith fod y graddau y mabwysiadwyd hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf – ar ffurf caniatâd cynllunio a datblygiadau gwirioneddol – yn golygu y bydd y potensial llawn o greu swyddi yn cael ei gyfyngu'n ddifrifol oni bai fod yna gyflenwad newydd o dir cyflogaeth ychwanegol yn ystod cyfnod y CDLI dilynol. Yn hyn o beth cyfeirir

hefyd at y dangosyddion pwysig eraill, nid lleiaf llofnodi'r Fargen Ddinesig a'i chynnwys a strategaeth adfywio'r Cyngor ei hun.

7. Y CDLI Diwygiedig

Defnyddiwyd yr Adolygiadau Tir Cyflogaeth (a'r Adroddiadau Monitro Blyneddol), ynghyd â darnau o dystiolaeth megis yr Astudiaeth Anghenion Cyflogaeth Sectorol, wrth baratoi ar gyfer y CDLI Diwygiedig. Bydd y darnau hyn o dystiolaeth a ddarparwyd nid yn unig yn sicrhau bod yna gofnod cyfredol o'r tir cyflogaeth a hawliwyd a throsiant tir cyflogaeth o fewn y Sir, byddant hefyd yn nodi a yw dyraniadau cyflogaeth presennol y CDLI cyfredol yn ymarferol.

Yng ngoleuni cyngor cynllunio diweddaraf Llywodraeth Cymru sef *Canllawiau Cynllunio ar Adeiladu Sylfaen Dystiolaeth Datblygu Economaidd i Ategu Cynllun Datblygu Lleol*, mae cydweithio'n parhau gyda'n partneriaid corfforaethol yn yr Is-adrannau Datblygu Economaidd ac Eiddo Corfforaethol mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth ac adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn ar bob agwedd ar gyflogaeth, i'w defnyddio gan bawb dan sylw. Mae'r wybodaeth hon wedi yn hanfodol wrth helpu i nodi'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer dyrannu tir at ddibenion cyflogaeth yn seiliedig ar angen economaidd, a'u priodoldeb o safbwynt cynllunio gofodol.

8. Astudiaethau cyflogaeth fwy na lleol - Yr Astudiaeth Economaidd Dwy Sir ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro

Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cynghori y dylid casglu data ar 2 lefel, sef yn lleol ac yn fwy na lleol. Mae Sir Gaerfyrddin eisoes wedi cychwyn ar y broses ar lefel leol drwy'r Adolygiad Tir Cyflogaeth hwn a'r tri Adolygiad blaenorol.

Mae astudiaethau mwy na lleol yn dileu ffiniau gweinyddol ac yn edrych ar ffactorau eraill, megis teithio i ardaloedd gwaith. Byddai astudiaeth fwy na lleol yn fanteisiol i'r awdurdodau hynny, megis Sir Gaerfyrddin, sydd wedi dechrau ar eu hadolygiad o'r CDLI. Cynghorir bod astudiaethau o'r fath yn dilyn proses 6 cham Llywodraeth Cymru a nodir yn y *Canllawiau Ymarfer - Adeiladu Sylfaen Dystiolaeth Datblygu Economaidd i Ategu Cynllun Datblygu Lleol*. Mae'r Canllawiau'n pwysleisio y byddai'r gwaith yn helpu awdurdodau unigol gyda'u hadolygiadau o'r CDLI a'u sylfaen dystiolaeth, ond gall hefyd fod o gymorth i Lywodraeth Cymru adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd yng Ngogledd Cymru i roi gwell darlun ar draws Cymru, ac i gysylltu â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

O ganlyniad, fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer ei Chynlluniau Datblygu Lleol, roedd Sir Gaerfyrddin wedi cynnal trafodaethau â Chyngor Sir Penfro (yn ogystal â dau o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o fewn eu ffiniau) ac wedi comisiynu Arup i gynnal astudiaeth fwy na lleol ar gyfer yr Awdurdodau dan sylw.

Diben yr astudiaeth yn y pen draw yw darparu sail i gynllunio darpariaeth tir ac eiddo strategol ar gyfer gweithgareddau economaidd ar draws Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn y dyfodol. Drwy ddefnyddio dadansoddiad ystadegol, adolygiad llenyddiaeth manwl o fentrau sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal a thystiolaeth anecdotaidd a ddarparwyd drwy ymgysylltu ag asiantaethau marchnad a busnesau allweddol, mae'r Strategaeth yn ceisio penderfynu a oes diffyg cyfatebiaeth ar hyn o bryd rhwng cyflenwi tir cyflogaeth strategol a'r galw amdano, yn ogystal â gwneud argymhellion ehangach mewn perthynas ag ymyriadau cadarnhaol a allai helpu i gefnogi twf economaidd.

Er bod canfyddiadau cychwynnol yr Astudiaeth yn dangos bod amcanestyniad o'r galw am dir cyflogaeth yn yr ardal yn isel (gyda rhagolygon Brexit yn cynrychioli dirywiadau yn y rhan fwyaf o sectorau yn yr ardal), mae hyder bod galw cudd, parodwydd busnesau cynhenid i barhau a thyfu, ac awydd gan randdeiliaid i ddiogelu manteision lleoliadol ac asedau strategol ar gyfer twf yn y dyfodol. Yn ogystal, gellir ystyried mentrau sydd eisoes yn bodoli (megis y Fargen Ddinesig) fel cefnogaeth ar gyfer rhagolwg o ran twf cadarnhaol.

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion cychwynnol eraill yn nodi y dylai'r ardal fwy na lleol ganolbwyntio felly ar fanteisio ar ei chryfderau a'r asedau sy'n bodoli eisoes, gan ganfod atebion i gydweithio er mwyn lleihau neu oresgyn y bwlch gwerth a all fod yn rhwystr wrth ddatblygu/buddsoddi. Dylai'r ardal geisio diogelu asedau strategol er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu budd i'r ardal, ochr yn ochr â chynllunio'n rhagweithiol ar gyfer safleoedd strategol lle y mae'r galw'n uchel.

Mae'r astudiaeth fwy na lleol yn datblygu ymyriadau sy'n deillio o'r adolygiad llinell sylfaen cyflym, gwybodaeth anecdotaidd a ddarparwyd gan randdeiliaid a mentrau a amlinellir yn yr adolygiad llenyddiaeth. Mae'r ymyriadau a fydd yn debygol o lywio'r weledigaeth economaidd ar lefel fwy na lleol, a pholisïau sy'n seiliedig ar feini prawf o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol perthnasol, yn canolbwyntio ar naw pwnc cyffredinol. Yn y dyfodol, dylai'r awdurdodau cynllunio fwy na lleol ddatblygu, cytuno a chynnal system o olrhain yr ymyriadau hyn, gan gytuno ynghylch Dangosyddion Perfformiad perthnasol er mwyn dangos cynnydd ac ystyried y rhain wrth ddatblygu polisi ac wrth asesu ceisiadau.

9. Casgliadau

Dyma'r pedwerydd Adolygiad Tir Cyflogaeth, sydd wedi parhau i adeiladu ar y data a gasglwyd yn rhan o adroddiadau monitro blynyddol y CDLI, yn ogystal â'r arolygon safle a gesglir bob gwanwyn. Roedd y tri Adolygiad Tir Cyflogaeth cyntaf yn ymwneud yn unig â'r CDLI mabwysiedig presennol. Fodd bynnag, mae'r Adolygiad wedi cael ei lunio ar y cyd â'r broses o ddiwygio'r CDLI a ddechreuodd yn ystod 2018 yn unol â'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer paratoi'r CDLI Diwygiedig (newydd), y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru ar 28 Mehefin 2018.

Yn sgil yr Adolygiad, yn ystod rhan olaf 2018 a rhan gyntaf 2019, cynhaliwyd ailasesiad helaeth ar y dyraniadau cyflogaeth yn y CDLI mabwysiedig presennol yn ogystal â'r safleoedd cyflogaeth presennol. Ynghyd â hyn, roedd darnau eraill o dystiolaeth wrthi'n cael eu cynhyrchu, yn fwyaf nodedig yr Astudiaeth Economaidd Dwy Sir, a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu Adolygiad o'r CDLI ynghyd â'r Adolygiad Tir Cyflogaeth hwn.

O ganlyniad, oherwydd bod y CDLI Diwygiedig Adneuo wedi cyrraedd cam allweddol yn ei ddatblygiad, mae'r dystiolaeth wedi'i chynnwys yn yr adolygiad hwn, gan gynnwys y diwygiadau i'r dyraniadau cyflogaeth, a nodir y rhain yn Atodiad 1 fel y maent yn ymddangos yn y CDLI Adneuo Diwygiedig. Fodd bynnag, er mwyn rhoi eglurder, ac er mwyn cymharu â chanlyniadau Adolygiadau Tir Cyflogaeth blaenorol, mae haenau'r aneddiadau (sydd wedi bod yn destun gwelliant yn y CDLI Adneuo Diwygiedig) wedi cael eu nodi yn y modd y maent yn ymddangos yn y CDLI mabwysiedig presennol. Ceir eglurhad, dadansoddiad a chymariaethau pellach yn Adolygiad Tir Cyflogaeth 2020 ac o fewn unrhyw dystiolaeth gefndirol arall a gynhyrchir cyn cyflwyno'r Cynllun Diwygiedig i Lywodraeth Cymru i'w harchwilio.

ATODIAD 1										
Enw'r safle	Cyfanswm Arwynebedd y Safle (Ha)	Adelladau / tir caeedig, mewn defnydd (Ha)	Seilwaith, tirweddau a thir anodd ei ddodbiylgu (Ha)	Adelladau / tir caeedig gwag neu ddim mewn defnydd (Ha)	Adelladau / tir caeedig ddim mewn defnydd cyflogaeth Dosbarth 8 (Ha)	Cyfran o Ddôsbarth Defnydd (B1, B2, B8) (%)	Cyl. caniatâd cynllunio (weth harsoddi'r CDU neu ers mabwysiadu'r CDU)	Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyrniadau)	Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyrniadau) (safleoedd presennol)	
Ardaloedd Twf - Haen 1										
PrC1 Caerfyrddin										
Mekatek	4.29	1.48	2.81	0	0.41	72				
Cillefer	20.03	4.39	15.64	0.33	1.91	49	W/31332			0.03
Melin Borthant	1.88	0.48	1.40	0	0	100				
Cyfanswm	36.19	6.35	19.85	0.33	2.32	58				0.03
Cillefer PrC1/E1	4.62						W/35655		0.56	
Gorllewin Caerfyrddin PrC1/MU1	4.53									
Pibwrheyd PrC1/MU2	8.95						W/36830		0.10	
Yr Egin PrC1/SS1	1.04						W/34228		1.04	
Cyfanswm	19.14								1.7	
PrC2 Llanelli										
Dafen	67.16	20.30	46.86	1.44	1.89	84				
Trostre	65.98	14.20	51.78	0.04	1.85	87	S/30376; S/30377; S/33614			0.67
Llynnoedd Delta	3.87	0.71	3.16	0.01	0.15	77				
Bynea	33.14	8.18	24.96	0.10	0.91	89				
Droc y Gogledd	1.64	0.45	1.19	0.05	0.3	34				
AMG Resources (yn cynnwys Iard Sgrap)	9.14	0.79	8.35	0	0	100				
Parc y Plant	2.53	0.15	2.38	0	0	100				
Gwethdal Llaneli	0.89	0.31	0.58	0	0	99				
100 Heol Trostre	1.39	0.37	1.02	0.1	0	73				
Drepo, Heol Y Parc	1.24	0.34	0.9	0	0.03	92				
Heol Trosserch	20.78	5.60	15.18	0	0.23	96				
Parc Ddiwydiannol Glanrafon	3.45	0.94	2.51	0	0.18	80				
Cyfanswm	211.20	52.34	158.87	1.74	5.54	86				0.67
Droc y Gogledd PrC2/E1	0.84									
Dafen PrC2/E2	14.93									
Cyfanswm	15.77									
PrC3 Rhydaman / Cross Hands										
Heol Parc Mawr (yn cynnwys Canolfan Fusnes a Gwethdal Cross Hands)	8.05	1.79	6.26	0	0.4	78	S/30672; U/35910 (0.09 Ha); E/37324 (0.04 Ha)			0.31
Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands	12.92	3.21	9.71	0						
				0	0	100				
Parc Menter	5.12	0.82	4.30	0	0.06	93	S/22280; S/27072			1.53
Stad Ddiwydiannol Gorslas	1.59	0.28	1.31	0.05	0.08	56	W/36179			0.3
Stad Ddiwydiannol Capel Hendre	17.11	3.44	13.67	0	0.22	94	E/30404; E/33556; E/34847			0.73
Parc Hendre	13.08	3.94	9.14	0	0	100	E/37602			0.06
Gwaith Drift Lyndsey	1.22	0.10	1.12	0	0	100				
Parc Amawey	6.57	1.48	5.09	0.08	0.12	86	E/37312			0.07
Heol Flowndri	2.61	0.61	2.0	0.02	0.41	30				
Stad Ddiwydiannol y Betws	3.21	0.37	2.84	0	0	100				
Heol Masciquarre (MQ1 & MQ2)	0.21	0.072	0.14	0	0	100				
Gwethdal Betws Parc	1.33	0.23	1.09	0.02	0.01	88				
Heol Dyffryn	4.21	1.62	2.59	0.01	1.03	36				
Pantylfrynion	2.07	0.34	1.73	0	0	100				
Heol Pentwyn	3.89	0.39	3.50	0.03	0	92				
Hen Wath Glor Betws	5.70	0.36	5.34	0	0.15	59				
Tir I'r gogledd o Heol Penybanc	3.66	0.71	2.95	0	0.18	74				
Heol Odu, Tyceon	5.06	0.68	4.38	0	0	100				
Stad Ddiwydiannol Pantyrhodyn & Stad Ddiwydiannol Cilrychen	15.78	5.16	10.62	0	0.28	95				
Cyfanswm	113.37	20.44	77.15	0.21	2.66	86				3
Dwyrain Cross Hands PrC3/E1	8.7						S/28449		8.7	
Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands PrC3/E2	7.31									
Parc Buones Cross Hands PrC3/E3	4.73									
Meadows Road, Cross Hands PrC3/E4	1.09									
Parc Menter, Cross Hands PrC3/E5	0.09									
Stad Ddiwydiannol Capel Hendre PrC3/E6	2.88						E/27773		0.44	
Parc Hendre PrC3/E7	9.86						E/37602		0.73	
Stad Ddiwydiannol Cilrychen PrC3/E8	0.82									
Cyfanswm	35.48								9.87	

Allwedd	Cymryd lan 2017-2018
safe cyflogaeth presennol	0.26
safe cyflogaeth arfaethedig	1.27

Hap-safleoedd 2017/18	
Cyl. Caniatâd Cynllunio	Arwynebedd safle (Ha)
W/37268	0.12
E/37011	0.08
E/35622	0.2
Cyfanswm	0.4



Enw'r safle	Cyfanswm Arwynebedd y Safle (Ha)	Adelladau / tir caeedig, mewn defnydd (Ha)	Seilwaith, tirweddau a thir anodd ei ddarbygu (Ha)	Adelladau / tir caeedig gwag neu ddim mewn defnydd (Ha)	Adelladau / tir caeedig ddim mewn defnydd cyfogaeth Dosbarth 8 (Ha)	Cyfran o Ddosbarth Defnydd (B1, B2, B8) (%)	Cyl. caniatâd cynllunio (werth baratoi'r CDLI neu ers mabwysiadu'r CDLI)	Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyantadau)	Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyantadau) (safferedd presennol)
Canolfannau Gwasanaethau - Haen 2									
Porth Tywyn SeC4									
Parson's Pickles	2.81	0.32		2.49	0	0	100		
Stad Ddiwydiannol Silver Terrace	0.89	0.32		0.57	0	0.09	71		
Stad Ddiwydiannol Porth Tywyn	0.81	0.23		0.58	0	0	100		
Llanelli Sand	2.63	2.63		0.00	0	0	100		
Dylafy	2.34	0.34		1.99	0.01	0	97		
Stad Ddiwydiannol Pen-bre	1.51	0.42		1.09	0	0.24	43		
<i>Cyfanswm</i>	10.82	4.26		6.56	0.01	0.33	92		
Dylafy SeC4/E1	3.28						W/02604	3.28	
<i>Cyfanswm</i>	3.28							3.28	
Llandello SeC16									
Stad Ddiwydiannol Beechwood	2.40	0.30		2.10	0	0.23	25	E/33880; E/24801; E/36028	0.19
Heol yr Orsaf	2.02	0.36		1.66	0	0.29	21	E/34448	0.07
Mart Ffair-fach	1.08	0.22		0.86	0	0.22	0		
<i>Cyfanswm</i>	5.50	0.88		4.62	0	0.74	16		0.26
Stad Ddiwydiannol Beechwood SeC16/MU1 & SeC16/E1	1.25						E/33059	0.25	
Hen Neuadd y Farchnad, Llandello SeC16/E2	0.2								
<i>Cyfanswm</i>	1.45							0.25	
Llanymddyfri SeC15									
Church Bank a Hen Felin Uffo	7.19	2.67		4.52	0.27	0.92	55		
Depo Fy De-orllo o Ysgol Pantycelyn	0.99	0.13		0.86	0	0	100		
<i>Cyfanswm</i>	8.18	2.8		5.38	0.27	0.92	58		
Castell-newydd Emlyn SeC12									
Heol yr Orsaf	1.72	0.13		1.59	0	0.11	18		
Cyfllemer Adellaedwyr/lard Goed	1.07	0.2		0.87	0	0.2	0		
Aberarad	3.41	0.73		2.68	0	0	100	W/33814	0.01
<i>Cyfanswm</i>	6.19	1.06		5.13	0	0.31	71		0.01
St Clears SeC18									
Iard yr Orsaf	1.03	0.48		0.55	0	0.12	75	W/32941; W/33637; W/36134	0.81
Heol yr Orsaf	2.40	0.79		1.61	0.13	0.18	61		
Wembley Place	0.75	0.33		0.42	0	0.06	82		
Parc Buones Sanciŵr	0.81	0.16		0.65	0.01	0.02	81		
Depo Gyferybyniol a Chaeau Gardde	0.58	0.21		0.37	0	0.21	0		
Tir ger yr A40	1.44	0.65		0.79	0	0.48	25	W/20735; W/32747; W/34779	1.16
<i>Cyfanswm</i>	7.01	2.62		4.40	0.14	0.48	54		1.97
Parc Buones Sanciŵr SeC18/E1	0.44								
<i>Cyfanswm</i>	0.44								
Hendy-gwyn ar Daf SeC19									
West Street (Sgogledd)	0.62	0.22		0.40	0	0.1	55	W/24818	0.27
Gorllewin Heol yr Orsaf (Iard Adellaedwyr)	1.11	0.19		0.92	0	0.19	0		
Wynn Phillips Truck Centre (Depo)	0.19	0.04		0.15	0	0.06	0	W/32606	0.35
Trevaughan	2.17	1.24		0.93	0	0.19	84		
Stad Ddiwydiannol Hendy-gwyn ar Daf	3.37	0.53		2.84	0.03	0.17	63	W/30784	0.57
Hufenfa Hendy-gwyn	3.33	2.25		1.08	0.08	0.76	63		
<i>Cyfanswm</i>	10.79	4.47		6.32	0.11	1.47	65		1.19
Stad Ddiwydiannol Hendy-gwyn ar Daf SeC19/E1	0.49								
Tir Fy de o'r Hen Hufenfa SeC19/E2	1.48								
<i>Cyfanswm</i>	1.97								

Enw'r safle	Cyfanswm Arwynebedd y Safle (Ha)	Adelladau / tir caeedig, mewn defnydd (Ha)	Seilwaith, tirwedd a thir anodd ei ddathbgu (Ha)	Adelladau / tir caeedig gwag neu ddim mewn defnydd (Ha)	Adelladau / tir caeedig ddim mewn defnydd cyflogaeth Dosbarth 8 (Ha)	Cyfran o Ddosbarth Defnydd (B1, B2, B8) (%)	Cyl. caniatâd cynllunio (werth baratoi'r CDLI neu ers mabwysiadu'r CDLI)	Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyariadau)	Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyariadau) (safleoedd presennol)
Canolfannau Gwasanaethau Lleol - Haen 3									
Cydweli SeC3									
Stad Ddiwydiannol Heol Pen-bre	2.43	0.86	1.57	0	0.13	85			
Stad Ddiwydiannol Heol Pen-bre (Dwyrain)	2.43	0.22	2.21	0	0.2	12	6/33928		0.35
Cyfanswm	4.86	1.08	3.78	0	0.33	69			0.35
Pontherri SeC1									
Stad Ddiwydiannol Pontherri	3.05	0.62	2.43	0.01	0.02	95			
Pontyberem SeC13									
Stad Ddiwydiannol	0.91	0.26	0.65	0	0.15	42			
Hendy SeC6									
Stad Ddiwydiannol	3.97	1.39	2.58	0.03	0.21	83			
Glanaman / Garmant SeC10									
Tir yn Heol yr Orsaf	1.79	0.24	1.55	0	0.03	88			
Hen Iard Lo, Heol Dŵr	2.79	0.08	2.71	0	0.04	53	6/30381		0.08
Stad Ddiwydiannol Raven	0.97	0.16	0.81	0.02	0.04	56			
Gwethdal Glanamau	1.23	0.3	0.93	0.27	0	11			
Cyfanswm	6.78	0.78	6	0.29	0.11	49			0.08
Brynaman SeC9									
Stad Ddiwydiannol Brynaman, Heol Cwmgarw	0.29	0.04	0.25	0	0.01	77			
Hen Platri Remply, Heol Cwmgarw	0.82	0.17	0.65	0.17	0	0	6/36279 check size in application		3.07
Cyfanswm	1.11	0.21	0.90	0.17	0.01	14			3.07
Llangadog SeC17									
Hen Huflufa	4.15	1.13	3.02	0	0	100			
Heol yr Orsaf (Sogledl)	1.21	0.39	0.82	0	0	100			
Heol yr Orsaf	3.33	0.26	3.07	0.06	0.18	7	6/32481		1.6
Cyfanswm	8.70	1.78	6.92	0.06	0.18	87			1.6
Llanfbydder SeC13									
Lladd-dy / Iard Goed	3.1	0.85	2.25	0	0.03	97			
Hen Fforddri (Cyfnewidfa Ffôn)	0.41	0.07	0.34	0	0.07	0			
Ty Mawr	0.40	0.12	0.28	0	0	100			
Cyfanswm	3.91	1.04	2.87	0	0.1	90			
Hen Fforddri SeC13/E1	0.4								
Cymunedau Cynulladwy - Haen 4									
Pencader SeC14									
Heol yr Orsaf	2.07	0.07	2	0.02	0.05	0			
B4459	1.02	0.13	0.89	0.08	0	35			
Clos caer	0.85	0.21	0.64	0	0.02	91			
Cyfanswm	3.94	0.41	3.53	0.1	0.07	59			
New Inn SuV43									
Iard Sgrap a Gwaith Peirianteg	0.40	0.05	0.35	0	0	100			
Ger Gwastrad Abbot	1.44	0.67	0.77	0	0.2	70			
Cyfanswm	1.84	0.72	1.12	0	0.2	72			
Llanfihangel - ar- arth SuV39									
Western Power etc	1.37	0.16	1.21	0	0.1	38			
Pont-tywell SuV41									
Heol yr Orsaf	1.38	0.23	1.15	0	0.19	16			
Heol Lewis	1.14	0.16	0.98	0	0.08	50			
Stad ger y B4624	0.67	0.13	0.54	0	0.02	87			
Cyfanswmiau	3.19	0.52	2.67	0	0.29	44			
Cwmgwili SuV28									
Stad Ddiwydiannol Heathfield	2.66	0.24	2.42	0	0.08	67			
Cyfanswm Terfynol (safleoedd presennol)	445.55	109.59	335.96	3.47	17.49	81			12.22
Cyfanswm Terfynol (safleoedd arfaethedig yn y CDLI Diwygiedig Adneuo)	77.93							15.10	


Atodiad 2

**Cymhariaeth rhwng
safleoedd cyflogaeth presennol
yn 2018 a 2019**


1. Cyfanswm Arwynebedd y Safle ac Adeiladau / tir caeedig





Haen 3




Haen 4




2. Adeiladau / tir caeedig, mewn defnydd a cyfartaledd sy'n gwag neu ddim mewn defnydd





Haen 3




Haen 4



3. Cyfran o Ddosbarth Defnydd B1, B2, B8 (%)



Haen 3



Haen 4

